Rhif: WG52923

# Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd: Adroddiad Diweddaru 2025

2[il] Hydref 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

© Hawlfraint y Goron 2024 ISBN Digidol: 978-1-80633-335-6

## Trosolwg

Y ddogfen hon yw'r ail adroddiad i gael ei gyhoeddi yn erbyn y Fframwaith Canlyniadau newydd ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd. Bwriedir i'r adroddiad hwn gael ei ddarllen ar y cyd â'r Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Awst 2023.

## Y camau y mae angen eu cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Polisi Tai
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: homelessnesspolicy@gov.wales

# Tabl Cynnwys


**Pennod 1: Cyflwyniad** ..... 4

**Pennod 2: Crynodeb Gweithredol** ..... 6

**Pennod 3: Canlyniad Strategol 1 – Prin** ..... 7

**Pennod 4: Canlyniad Strategol 2 – Byrhoedlog** ..... 32

**Pennod 5: Canlyniad Strategol 3 – Ddim yn digwydd eto** ..... 40

**Pennod 6: Canlyniad Strategol 4 – Y Gweithlu** ..... 48

**Pennod 7: Canlyniad Strategol 5 – Ymateb Gwasanaethau Cyhoeddus** ..... 55

**Pennod 8: Canlyniad Strategol 6 – Canolbwyntio ar yr Unigolyn** ..... 58

**Atodiad 1: Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai** ..... 64

**Atodiad 2: Dangosyddion Llesiant Cymru perthnasol** ..... 66

# Pennod 1: Cyflwyniad

1.1. Diben y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yw gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru drwy nodi'r canlyniadau hirdymor i anelu atynt a dangos cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau hyn dros amser.

1.2. Yn benodol, mae'r Fframwaith wedi cael ei lunio i ddangos effaith y camau lefel uchel a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd Llywodraeth Cymru, a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Awst 2023, a'r cynnydd yn eu herbyn. Felly, caiff y fframwaith ei ddefnyddio i fesur cynnydd dros amser. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i ddatblygu Fframwaith Canlyniadau ar gyfer rhoi diwedd ar ddigartrefedd.

1.3. Cafodd y Fframwaith ei ddatblygu gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac ymgynghorwyd arno yng nghanol 2023. Cafodd fersiwn derfynol y fframwaith ei chyhoeddi ym mis Ionawr 2024 a chafodd yr adroddiad 'sylfaen' cyntaf ei gyhoeddi wedyn ym mis Gorffennaf 2024.

## Strwythur y Fframwaith:

1.4. Mae'r Fframwaith Canlyniadau wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **Canlyniadau Strategol** – Nodi'r canlyniadau cyffredinol eang i gyd-fynd â themâu allweddol y Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd – gwneud digartrefedd yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n digwydd eto. Mae **Diagram 1** isod yn nodi chwe maes y Canlyniadau Strategol.
- **Canlyniadau Manwl –** Caiff pob Canlyniad Strategol ei ategu gan ystod o ganlyniadau manwl er mwyn diffinio'r canlyniadau penodol a ddymunir ar gyfer pobl Cymru.
- **Dangosyddion Data –** Mae gan bob canlyniad manwl o leiaf un 'ddangosydd data' arfaethedig a nodir fel ffordd o fesur cynnydd dros amser tuag at gyflawni canlyniad.

## Canlyniadau manwl a dangosyddion data ategol

1.5. Mae gwybodaeth am bob un o'r Canlyniadau Manwl sy'n ategu pob Canlyniad Strategol, ynghyd â 'dangosyddion data' ategol i fesur cynnydd yn tuag at gyflawni pob canlyniad manwl i'w gweld yma. Gallai'r holl ddata a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn gael eu diwygio neu eu diweddaru, ac mae'r data sydd wedi'u cynnwys yma yn gywir ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

## Diagram 1: Canlyniadau Strategol



# Pennod 2: Crynodeb Gweithredol

2.1. Hwn yw'r ail adroddiad i gael ei gyhoeddi yn erbyn y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd. Bwriedir i'r adroddiad hwn gael ei ddarllen ar y cyd â'r Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Awst 2023, a'r adroddiad 'sylfaen' a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024.

2.2. Mae'n rhy gynnar o hyd i fesur cynnydd dros amser tuag at gyflawni'r holl Ganlyniadau Strategol o fewn y Fframwaith. Bydd diweddariadau blynyddol i'r adroddiad hwn yn y dyfodol yn cynnwys asesiad cymharol o'r cynnydd a wnaed dros y cyfnod dan sylw tuag at gyflawni 'canlyniadau manwl' unigol ar gyfer pob Canlyniad Strategol. Yn ogystal â hynny, ni chaiff sawl un o'r dangosyddion data a nodir yn y Fframwaith eu casglu ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau data. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r bylchau hyn yn y data.

2.3. Mae'n bwysig hefyd cydnabod bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar adeg o newid mawr; digwyddiadau economaidd a geowleidyddol sy'n effeithio ar y galw am wasanaethau tai a digartrefedd a diwygiadau sylweddol arfaethedig i'r system tai a digartrefedd.

2.4. Ar 19 Mai 2025 cafodd Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig eu cyflwyno i'r Senedd. Mae'r Bil yn nodi ystod o ddiwygiadau i drawsnewid y system ddigartrefedd yng Nghymru, gan gynnwys pwyslais cryfach ar atal er mwyn cyflawni ein huchelgais hirdymor i roi diwedd ar ddigartrefedd. Fel y nodir uchod, ni ddylai'r adroddiad hwn gael ei ystyried ar ei ben ei hun ond yn hytrach dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd a'r adroddiad 'sylfaen' cyntaf.

# Pennod 3: Canlyniad Strategol 1 – Prin

**Caiff pobl eu hatal rhag bod yn ddigartref yn y lle cyntaf cyn gynted â phosibl.**

## Trosolwg

3.1 Nod y canlyniad strategol hwn yw adlewyrchu ein hymrwymiad i atal digartrefedd yn y lle cyntaf a sicrhau'r ffocws cywir yn y meysydd ataliol priodol. Yn y tymor byr, rydym yn disgwyl y bydd llai o bobl yn mynd yn ddigartref ac y llwyddir i atal mwy o bobl rhag bod yn ddigartref. Yn y tymor hir, byddem yn disgwyl gweld llai o bobl yn dod i gysylltiad â gwasanaethau digartrefedd.

| **Allwedd** |
|---|
| Dim data ar gael er mwyn mesur |
| Mesur procsi/data i gael eu hadfer |
| Mae'r rhan fwyaf o'r data ar gael er mwyn mesur |

**Tabl 1:** Canlyniad Strategol 1: Crynodeb o'r Canlyniad Manwl

| Canlyniad Manwl | Dangosyddion a mesurau | Sut beth yw 'da' |
|---|---|---|
| **1:** Mae llai o aelwydydd yn profi digartrefedd yn y lle cyntaf | + Mae tri allan o'r pum dangosydd ar gael er mwyn mesur.<br>— Mesur procsi yw un o'r dangosyddion sydd ar gael er mwyn mesur. | **Tymor byr**: Mae data ar gael ar gyfer yr holl ddangosyddion.<br>**Hirdymor**: Cynnydd cadarnhaol yn erbyn yr holl ddangosyddion. |
| **2**: Mae'r grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf yn cael eu nodi ac mae mesurau yn eu lle fel bod llai o bobl yn y grwpiau hyn | + Mae'r dangosydd ar gael er mwyn mesur.<br>— Mesur procsi. | **Tymor byr**: Symud i ffwrdd oddi wrth y mesur procsi er mwyn ymgorffori mwy o grwpiau sy'n wynebu risg.<br>**Tymor hir**: Cynnydd cadarnhaol tuag at y dangosydd. |

| | | |
|---|---|---|
| **3**:  Caiff plant a phobl ifanc sy'n wynebu'r risg o ddigartrefedd eu nodi ar gam cynnar a'u hatal rhag mynd yn ddigartref | + Pob dangosydd ar gael er mwyn mesur.<br>— Un dangosydd yn cael ei fesur drwy fesur procsi. | **Tymor byr:** Defnyddio mesur uniongyrchiol yn lle'r mesur procsi<br>**Tymor hir**: Cynnydd cadarnhaol yn erbyn yr holl ddangosyddion |
| **4:** Nid oes neb yn ddigartref ac ar y stryd | + Mae un allan o'r ddau ddangosydd ar gael er mwyn mesur. | **Tymor byr**: Mae data ar gael ar gyfer yr holl ddangosyddion.<br>**Tymor hir**: Cynnydd cadarnhaol yn erbyn yr holl ddangosyddion |
| **5**: Mae cymorth ar gael i sicrhau nad yw chwalu teuluoedd a thor perthynas yn arwain at ddigartrefedd | + Mae'r dangosydd ar gael er mwyn mesur | **Tymor hir:** Cynnydd cadarnhaol yn erbyn y dangosydd. |
| **6:** Cyflenwad digonol a chartrefi fforddiadwy o ansawdd da ar gael i ddiwallu anghenion tai | + Mae pedwar allan o'r pum dangosydd ar gael er mwyn mesur. | **Tymor byr**: Mae data ar gael er mwyn mesur yr holl ddangosyddion.<br>**Tymor hir**: Cynnydd cadarnhaol yn erbyn yr holl ddangosyddion. |

Mae Canlyniadau Manwl 7 i 9 wedi cael eu cynnwys yn Atodiad 2, gan fod modd croesgyfeirio'n uniongyrchol rhwng y canlyniadau manwl hyn a Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cymru.

## Canlyniad Manwl 1: Mae llai o aelwydydd yn profi digartrefedd yn y lle cyntaf


**Tabl 2:** Canlyniad Manwl 1, Prin: Crynodeb o'r dangosydd

| **Canlyniad Manwl 1 – Dangosyddion** | **Y data diweddaraf sydd ar gael** | **Ffynhonnell/ argaeledd** | **Sut beth yw 'da'** |
|---|---|---|---|
| **1a:** Nifer yr aelwydydd sy'n ddigartref | 2023-24 | Ffurflenni data Digartrefedd Statudol – mesur procsi | Nifer y bobl a ddaw i gysylltiad â gwasanaethau digartrefedd yn lleihau. |
| **1b:** Canran yr aelwydydd a gafodd eu hatal rhag bod yn ddigartref ar ôl cael cymorth gan awdurdodau lleol. | 2023-24 | Ffurflenni data Digartrefedd Statudol | Canran uwch o aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref. |
| **1c:** Nifer (a chanran) yr aelwydydd mewn perygl o fod yn ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod yr oedd dyletswydd atal yn ddyledus iddynt (adran 66), a ddaeth i ben o dan adran 67 (2) pan aethant yn ddigartref, Cymru | 2023-24 | Ffurflenni data Digartrefedd Statudol | Canran is o aelwydydd na lwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref. |
| **1d:** Nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd cudd, absoliwt a fesul 10,000 o aelwydydd | Dd/G | Dim ffynonellau data ar gael | Lleihad yn nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd cudd. |
| **1e:** Nifer (a chanran) yr aelwydydd sy'n cyfeirio at y rhesymau canlynol fel y prif reswm dros golli'r cartref sefydlog diwethaf (Adran 73):<br>➢ Rhiant ddim yn fodlon neu ddim yn gallu cynnig llety mwyach.<br>➢ Perthnasau eraill neu ffrindiau ddim yn fodlon neu ddim yn gallu cynnig llety mwyach.<br>➢ Tor perthynas â phartner:<br>Heb drais<br>Gyda thrais<br>➢ Trais ac aflonyddu:<br>Â chymhelliant hiliol<br>Ar sail crefydd/cred | 2023-24 | Ffurflenni data Digartrefedd Statudol<br><br>*Noder: Ni chafodd data eu casglu ar gyfer y dangosydd data hwn yn ystod y pandemig ond ailddechreuwyd gwneud hynny yn 2023-24* | Lleihad yn nifer yr aelwydydd sy'n cyfeirio at y rhesymau a nodir fel y prif reswm dros golli'r cartref sefydlog diwethaf. |
| Cysylltiad â Phrif Ganlyniad 1 y Grant Cymorth Tai: Mae pobl wedi llwyddo i ymwneud â gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai | Dd/G | Croesgyfeirio at Fframwaith Canlyniadau'r Grant | Cynnydd yn nifer y bobl sy'n llwyddo i ymwneud â |

| | | | |
|---|---|---|---|
| (cyngor, gwybodaeth a chymorth) ac mae ganddynt fwy o wybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael iddynt a/neu maent yn gwybod ble i droi am gymorth | | Cymorth Tai – bydd data ar gael ar gyfer adroddiad y Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn y dyfodol yn amodol ar gysondeb ac ansawdd y data. | gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai ac sydd â mwy o wybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael. |
| Cysylltiad â Phrif Ganlyniad 4 y Grant Cymorth Tai: Gall pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai reoli eu llety/cartref presennol, sy'n eu hatal naill ai rhag mynd yn ddigartref neu orfod defnyddio gwasanaethau cyhoeddus mwy costus (e.e. gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol) | Dd/G | Croesgyfeirio at Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai – bydd data ar gael ar gyfer adroddiad y Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn y dyfodol yn amodol ar gysondeb ac ansawdd y data. | Cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai ac sy'n gallu rheoli eu llety presennol. |

**Dangosydd 1a: Nifer yr aelwydydd sy'n ddigartref**

**Siart 1:** Nifer bras y bobl a ddaw i gysylltiad[1] â gwasanaethau digartrefedd, fesul blwyddyn ariannol, Cymru





Ffynhonnell: Cyfrifiad yn seiliedig ar ddata o gasgliad data Digartrefedd Statudol Llywodraeth Cymru

[1]Cyfrifwyd y data hyn gan ddefnyddio dadansoddiadau yn y data Digartrefedd Statudol ac felly fe'u hystyrir yn fesur bras. Gall sawl aelwyd ddod i gysylltiad â gwasanaethau fwy nag unwaith yn ystod yr un cyfnod adrodd ac yn ogystal â hynny, mae cyfyngiadau amser sy'n effeithio ar gywirdeb y mesur hwn.

3.2 Defnyddir mesur procsi ar gyfer y dangosydd hwn ar hyn o bryd, drwy gyfrifo 'Nifer bras y bobl a ddaw i gysylltiad â gwasanaethau digartrefedd' fesul blwyddyn ariannol. Mae Siart 1 yn dangos bod nifer bras yr achosion o ddod i gysylltiad â gwasanaethau digartrefedd wedi cynyddu 2,382 rhwng 2022-23 a 2023-24, sef cynnydd o 11%.

**Dangosydd 1b: Canran yr aelwydydd a gafodd eu hatal rhag bod yn ddigartref ar ôl cael cymorth gan awdurdodau lleol**

**Siart 2:** Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref, fesul blwyddyn ariannol, Cymru





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data Digartrefedd Statudol

3.3 Mae Siart 2 yn dangos bod canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref wedi aros yn debyg rhwng 2022-23 a 2023-24, sef 59% yn 2022-23 i 58% yn 2023-24.

**Dangosydd 1c: Nifer (a chanran) yr aelwydydd mewn perygl o fod yn ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod yr oedd dyletswydd atal yn ddyledus iddynt (adran 66), a ddaeth i ben o dan adran 67 (2) pan aethant yn ddigartref, Cymru**

**Siart 3:** Nifer yr aelwydydd na lwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref, fesul blwyddyn ariannol, Cymru





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data Digartrefedd Statudol

3.4 Mae Siart 3 yn dangos bod canran yr aelwydydd na lwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref wedi gostwng ychydig rhwng 2022-23 a 2023-24, o 27% i 25%.

**Dangosydd 1e: Nifer yr aelwydydd sy'n cyfeirio at y rhesymau canlynol* fel y prif reswm dros golli'r cartref sefydlog diwethaf (Adran 73)**

**Siart 4:** Y prif reswm dros golli'r cartref sefydlog diwethaf yn ôl rheswm, fesul blwyddyn ariannol, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data Digartrefedd Statudol

*Ceir rhestr lawn o'r rhesymau ar dudalen 9.

3.5 Mae Siart 4 yn dangos mai'r rheswm mwyaf cyffredin dros golli'r cartref sefydlog diwethaf yn 2018-2019 a 2023-24 oedd colli llety rhent neu lety clwm. Mae'r ffigurau hyn wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn o 1,980 yn 2018-19 i 2,676 o aelwydydd yn 2023-24.

## Canlyniad Manwl 2: Mae'r grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf yn cael eu nodi ac mae mesurau yn eu lle fel bod llai o bobl yn y grwpiau hyn


**Tabl 3:** Canlyniad Manwl 2, Prin: Crynodeb o'r dangosydd

| Canlyniad Manwl 2 – Dangosyddion | Y data diweddaraf sydd ar gael | Ffynhonnell/ argaeledd | Sut beth yw 'da' |
|---|---|---|---|
| **2a:** Nifer y bobl ag un neu fwy o nodweddion risg y mae cymorth wedi cael ei roi ar eu cyfer (yn ôl mesurau atal a rhyddhad llwyddiannus ac aflwyddiannus) | 2023-24 | Ffurflenni data Digartrefedd Statudol – mesur procsi | Ar gyfer pob grŵp sy'n wynebu risg:<br>• Cynnydd yn nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref a'u rhyddhau o ddigartrefedd.<br>• Lleihad yn nifer yr aelwydydd na lwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref a'u rhyddhau o ddigartrefedd. |

**Dangosydd 2a: Nifer y bobl ag un neu fwy o nodweddion risg y mae cymorth wedi cael ei roi ar eu cyfer (yn ôl mesurau atal a rhyddhad llwyddiannus ac aflwyddiannus)**


**Rhywedd y prif ymgeisydd**

**Siart 4i:** Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd ac na lwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref (Adran 66) yn ôl rhywedd y prif ymgeisydd fesul blwyddyn ariannol, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data [Digartrefedd Statudol]

**Siart 4ii:** Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd ac na lwyddwyd i'w rhyddhau o ddigartrefedd (Adran 73) yn ôl rhywedd y prif ymgeisydd fesul blwyddyn ariannol, Cymru





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data [Digartrefedd Statudol]

3.6 Mae Siart 4i yn amlinellu bod nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref, ar gyfer prif ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd, wedi lleihau rhwng 2022-23 a 2023-24. Hefyd, mae Siart 4ii yn dangos bod nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w rhyddhau o ddigartrefedd wedi lleihau ar gyfer aelwydydd â phrif ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd fel ei gilydd.


### Grŵp oedran y prif ymgeisydd

**Siart 4iii:** Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd ac na lwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref (Adran 66) yn ôl grŵp oedran y prif ymgeisydd fesul blwyddyn ariannol, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data [Digartrefedd Statudol]

**Siart 4iv:** Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd ac na lwyddwyd i'w rhyddhau o ddigartrefedd (Adran 73) yn ôl grŵp oedran y prif ymgeisydd fesul blwyddyn ariannol, Cymru





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data [Digartrefedd Statudol]

3.7 O siartiau 4iii a 4iv, y grŵp oedran sy'n cynrychioli'r mwyafrif o'r prif ymgeiswyr fesul blwyddyn yw '25 oed a throsodd'. Rhwng 2022-23 a 2023-24, mae nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref wedi lleihau neu wedi aros yn debyg ar gyfer pob grŵp oedran. Yn yr un modd, mae nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w rhyddhau o ddigartrefedd naill ai wedi lleihau neu wedi aros yr un faint ar gyfer pob grŵp oedran.


## Grŵp Ethnig y prif ymgeisydd

**Siart 4v:** Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd ac na lwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref (Adran 66) yn ôl grŵp ethnig y prif ymgeisydd fesul blwyddyn ariannol, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data [Digartrefedd Statudol]

**Siart 4vi:** Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd ac na lwyddwyd i'w rhyddhau o ddigartrefedd yn ôl grŵp ethnig (Adran 73) y prif ymgeisydd fesul blwyddyn ariannol, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data [Digartrefedd Statudol]

3.8 Mae Siart 4v a Siart 4vi yn dangos mai ‘gwyn’ yw'r grŵp ethnig a nodwyd gan y mwyafrif o'r prif ymgeiswyr, ac mai ‘tarddiad ethnig anhysbys’ sydd yn yr ail safle. Ym mhob grŵp, mae nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref wedi lleihau neu wedi aros yn debyg rhwng 2022-23 a 2023-24. Mae Siart 4vi yn dangos bod y niferoedd y llwyddwyd i'w rhyddhau o ddigartrefedd wedi lleihau yn y rhan fwyaf o grwpiau.


## Canlyniad Manwl 3: Caiff plant a phobl ifanc sy'n wynebu'r risg o ddigartrefedd eu nodi ar gam cynnar a'u hatal rhag mynd yn ddigartref

**Tabl 4:** Canlyniad Manwl 3, Prin: Crynodeb o'r dangosydd

| Canlyniad Manwl 3 – Dangosyddion | Y data diweddaraf sydd ar gael | Ffynhonnell/ argaeledd | Sut beth yw 'da' |
|---|---|---|---|
| **3a:** Nifer yr aelwydydd â phlant dibynnol sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd | 2023-24 | Ffurflenni data Digartrefedd Statudol<br><br>*Noder: Ni chafodd data eu casglu ar gyfer y dangosydd data hwn yn ystod y pandemig ond ailddechreuwyd gwneud hynny yn 2023-24* | Lleihad yn nifer yr aelwydydd â phlant dibynnol o dan 16 oed sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd. |
| **3b:** Nifer yr aelwydydd a gafodd eu hatal rhag bod yn ddigartref, yn ôl oedran y prif ymgeisydd (16-17 oed, a 18-24 oed) | 2023-24 | Ffurflenni data Digartrefedd Statudol | Ar gyfer y ddau grŵp oedran:<br>• **Tymor byr –** cynnydd yn nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref.<br>• **Tymor hir** – lleihad yn nifer yr aelwydydd a ddaw i gysylltiad â gwasanaethau digartrefedd, gan ddangos mwy o waith atal cynharach llwyddiannus. |
| **3c:** Nifer y plant dibynnol 16 oed ac iau sy'n byw mewn llety dros dro yn ôl math o lety | Mehefin 2025 | Data ar Ddarpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan | Lleihad yn nifer y plant dibynnol 16 oed ac iau mewn llety dros dro, a dim plant yn cael eu rhoi mewn llety dros dro anaddas. |
| **3d:** Nifer y bobl ifanc 16-24 oed sy'n byw mewn llety dros dro yn ôl math o lety | 2023-24 | Ffurflenni data Digartrefedd Statudol – mesur procsi | Lleihad yn nifer yr aelwydydd un person 16-17 oed, a phobl ifanc 18-21 sy'n gadael gofal a leolir mewn llety gwely a brecwast. |

**Dangosydd 3a: Nifer yr aelwydydd â phlant dibynnol sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd**

**Siart 5:** Nifer yr aelwydydd â phlant dibynnol sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd, fesul blwyddyn ariannol, Cymru[2]





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data Digartrefedd Statudol

[2] Cafodd y data hyn eu hadfer yng nghasgliad data Digartrefedd Statudol 2023-24, mae data o 2018-19 wedi cael eu cynnwys yma at ddibenion cymharu.

3.9 Mae Siart 5 yn dangos bod nifer yr aelwydydd â phlant dibynnol sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd wedi lleihau rhwng 2018-19 a 2023-24 o 4,716 i 3,540.

**Dangosydd 3b: Nifer yr aelwydydd a gafodd eu hatal rhag bod yn ddigartref, yn ôl oedran y prif ymgeisydd (16-17 oed, a 18-24 oed)**

**Siart 6:** Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref, yn ôl grŵp oedran y prif ymgeisydd a blwyddyn ariannol, Cymru





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data Digartrefedd Statudol

3.10 Mae Siart 6 yn dangos bod nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref ar gyfer y grŵp oedran 16-17 oed wedi lleihau 30 rhwng 2022-23 a 2023-24. Yn yr un modd, ar gyfer prif ymgeiswyr rhwng 18 a 24 oed, mae nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref wedi lleihau 96 rhwng 2022-23 a 2023-24.

**Dangosydd 3c: Nifer y plant dibynnol 16 oed ac iau sy'n byw mewn llety dros dro yn ôl math o lety**

**Siart 7:** Nifer y plant dibynnol o dan 16 oed mewn llety dros dro ar ddiwedd y cyfnod, yn ôl math o lety





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan]

3.11 Mae Siart 7 yn dangos y caiff plant dibynnol o dan 16 oed fel arfer le i fyw o fewn stoc yr awdurdod lleol ei hun. Mae nifer y plant dibynnol o dan 16 oed sy'n cael llety dros dro mewn pob math o lety wedi aros o dan 2,700 ers mis Rhagfyr 2024 ac mae wedi bod yn lleihau'n weddol gyson yn ôl data'r misoedd mwyaf diweddar.

**Dangosydd 3d: Nifer y bobl ifanc 16-24 oed sy'n byw mewn llety dros dro yn ôl math o lety**

**Siart 8:** Cyfanswm y lleoliadau mewn llety gwely a brecwast, fesul blwyddyn ariannol




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data [Digartrefedd Statudol]

3.12 Er mwyn amcangyfrif y dangosydd cyn i fesur data llawn fod ar gael, caiff lleoliadau mewn llety gwely a brecwast ar gyfer aelwydydd un person 16-17 oed a phobl ifanc 18-21 oed sy'n gadael gofal eu defnyddio. Mae Siart 8 yn dangos bod aelwydydd un person 16-17 oed wedi cael eu lleoli mewn llety

gwely a brecwast dros dro ar 162 o achlysuron yn 2023-24, sef cynnydd o 48 o gymharu â 2022-23. Cafodd pobl ifanc rhwng 18 a 21 oed sy'n gadael gofal eu lleoli mewn llety gwely a brecwast dros dro o dan y ddeddfwriaeth digartrefedd bresennol ar 180 o achlysuron, sef cynnydd o 9 o gymharu â 2022-23.


## Canlyniad Manwl 4: Nid oes neb yn ddigartref ac ar y stryd

**Tabl 5:** Canlyniad Manwl 4, Prin: Crynodeb o'r dangosydd

| Canlyniad Manwl 4 – Dangosyddion | Y data diweddaraf sydd ar gael | Ffynhonnell/ argaeledd | Sut beth yw 'da' |
|---|---|---|---|
| **4a:** Nifer y bobl sy'n ddigartref ac ar y stryd mewn mis, fesul awdurdod lleol (absoliwt a fesul 100,000 o'r boblogaeth) | Mehefin 2025 | Data ar Ddarpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan | Lleihad yn nifer y bobl sy'n cysgu allan. |
| **4b:** Nifer y bobl NEWYDD sy'n ddigartref ac ar y stryd yn ôl awdurdod lleol | Dd/G | Posibilrwydd o gasglu'r wybodaeth hon o fewn data ar Ddarpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan | Lleihad yn nifer y bobl newydd sy'n cysgu allan. |

**Dangosydd 4a: Nifer y bobl sy'n ddigartref ac ar y stryd mewn mis, fesul awdurdod lleol (absoliwt a fesul 100,000 o'r boblogaeth)**

**Siart 9:** Nifer y bobl sy'n cysgu allan ar ddiwedd y mis, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan]

3.13 Mae Siart 9 yn dangos bod nifer y bobl sy'n cysgu allan yng Nghymru yn uchel o hyd gyda mwy na 100 o unigolion yn cysgu allan yng Nghymru, gydag amrywiadau tymhorol. Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y niferoedd yn lleihau'n gyson. Mae'r ffigurau yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, fel y dangosir yn Nhabl 6.

**Tabl 6:** Cyfartaledd 12 mis[3] ar gyfer nifer y bobl sy'n cysgu allan, fesul awdurdod lleol, fesul 100,000 o'r boblogaeth

| Awdurdod Lleol | Nifer cyfartalog[3] y bobl sy'n cysgu allan | Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2023 | Nifer cyfartalog[3] y bobl sy'n cysgu allan, fesul 100,000 o'r boblogaeth |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 4 | 69,291 | 6 |
| Gwynedd | 8 | 119,173 | 7 |
| Conwy | 1 | 114,410 | 1 |
| Sir Ddinbych | 4 | 97,156 | 4 |
| Sir y Fflint | 2 | 155,812 | 2 |
| Wrecsam | 3 | 136,149 | 2 |
| Powys | 1 | 134,439 | 1 |
| Ceredigion | 19 | 73,050 | 26 |
| Sir Benfro | 13 | 125,006 | 11 |
| Sir Gaerfyrddin | 2 | 190,083 | 1 |
| Abertawe | 12 | 246,742 | 5 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1 | 142,898 | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 6 | 146,743 | 4 |
| Bro Morgannwg | 0 | 134,733 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 0 | 241,178 | 0 |
| Merthyr Tudful | 2 | 58,593 | 4 |
| Caerffili | 5 | 176,437 | 3 |
| Blaenau Gwent | 0 | 67,356 | 0 |
| Torfaen | 11 | 93,419 | 11 |
| Sir Fynwy | 6 | 94,572 | 7 |
| Casnewydd | 16 | 163,628 | 10 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Caerdydd | 31 | 383,536 | 8 |
| **Cymru** | **148** | **3,164,404** | **5** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan, ac Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn

[3]Mae'r cyfartaledd yn seiliedig ar gyfartaledd 12 mis, o fis Gorffennaf 2024 tan fis Mehefin 2025.

3.12. Mae Tabl 6 yn dangos nifer cyfartalog y bobl sy'n cysgu allan (yn ystod y cyfnod penodedig) fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol.

## Canlyniad Manwl 5: Mae cymorth ar gael i sicrhau nad yw chwalu teuluoedd a thor perthynas yn arwain at ddigartrefedd


**Tabl 7:** Canlyniad Manwl 5, Prin: Crynodeb o'r dangosydd

| **Canlyniad Manwl 5 – Dangosydd** | **Y data diweddaraf sydd ar gael** | **Ffynhonnell/ argaeledd** | **Sut beth yw 'da'** |
| --- | --- | --- | --- |
| **5a:** Nifer (a chanran) yr aelwydydd sy'n cyfeirio at y rhesymau canlynol dros fod o dan fygythiad o ddigartrefedd (Adran 66) a/neu golli'r cartref sefydlog diwethaf (Adran 73):<br>➢ Rhiant neu berthnasau eraill neu ffrindiau ddim yn fodlon neu ddim yn gallu cynnig llety mwyach<br>➢ Tor perthynas â phartner, gyda thrais neu heb drais<br>➢ Rhiant ddim yn fodlon neu ddim yn gallu cynnig llety mwyach<br>➢ Perthnasau eraill neu ffrindiau ddim yn fodlon neu ddim yn gallu cynnig llety mwyach | 2023-24 | Ffurflenni data Digartrefedd Statudol<br><br>*Noder: Ni chafodd data eu casglu ar gyfer y dangosydd data hwn yn ystod y pandemig ond ailddechreuwyd gwneud hynny yn 2023-24* | Lleihad yn nifer yr aelwydydd sy'n cyfeirio at y rhesymau a restrir fel y prif reswm dros fod o dan fygythiad o ddigartrefedd. |


**Dangosydd 5a: Nifer (a chanran) yr aelwydydd sy'n cyfeirio at y rhesymau canlynol* dros fod o dan fygythiad o ddigartrefedd (Adran 66) a/neu golli'r cartref sefydlog diwethaf (Adran 73)**

*Ceir rhestr o'r rhesymau yn Nhabl 7

**Siart 10i:** Nifer yr aelwydydd o dan fygythiad o ddigartrefedd yn ôl rheswm, a blwyddyn ariannol, Cymru[4]




**Siart 10ii:** Colli'r cartref sefydlog diwethaf yn ôl rheswm, a blwyddyn ariannol, Cymru[4]




**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru, Casgliad data Digartrefedd Statudol

[4] Cafodd y data hyn eu hadfer yng nghasgliad data Digartrefedd Statudol 2023-24, mae data o 2018-19 wedi cael eu cynnwys yma at ddibenion cymharu.

3.13. Mae Siart 10i yn dangos mai'r rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd yn 2023-24 dros fod o dan fygythiad o ddigartrefedd oedd ‘Rhiant ddim yn fodlon neu ddim yn gallu cynnig llety mwyach’. I'r gwrthwyneb, mae Siart 10ii yn dangos mai'r rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd yn 2023-24 dros golli'r cartref sefydlog diwethaf oedd ‘perthnasau eraill neu ffrindiau ddim yn fodlon neu ddim yn gallu cynnig llety mwyach’.

## Canlyniad Manwl 6: Cyflenwad digonol a chartrefi fforddiadwy o ansawdd da ar gael i ddiwallu anghenion tai


**Tabl 8:** Canlyniad Manwl 6, Prin: Crynodeb o'r dangosydd

| Canlyniad Manwl 6 – Dangosyddion | Y data diweddaraf sydd ar gael | Ffynhonnell/ argaeledd | Sut beth yw 'da' |
|---|---|---|---|
| **6a:** Canran yr aelwydydd sy'n gwario 30% neu fwy o'u hincwm ar gostau tai | Medi 2024 | Adroddiad Llesiant Cymru 2024 | Gostyngiad yng nghanran yr aelwydydd sy'n gwario 30% neu fwy o'u hincwm ar gostau tai. |
| **6b:** Cyflenwad Tai | Mawrth 2024<br><br>2023-24<br><br>Ar sail 2019 | Amcangyfrifon o'r stoc anheddau<br><br>Adeiladu tai newydd<br><br>Amcangyfrifon ar sail 2019 o'r angen am dai ychwanegol | Cynnydd yn y cyflenwad tai dros amser. |
| **6c:** Nifer yr aelwydydd ar y gofrestr tai cyffredin | Dd/G | Dim ffynonellau data ar gael | Lleihad yn nifer yr aelwydydd ar y gofrestr tai cyffredin, sy'n dangos bod cyflenwad digonol o stoc tai cymdeithasol. |
| **6d:** Canran yr aelwydydd digartref y rhoddir tenantiaethau iddynt yn y sector tai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat | 2023-24 | Ffurflenni data Digartrefedd Statudol<br>*Noder: Ni chafodd data eu casglu ar gyfer y dangosydd data hwn yn ystod y pandemig ond ailddechreuwyd gwneud hynny yn 2023-24* | Cynnydd yng nghanran yr aelwydydd digartref y rhoddir tenantiaethau iddynt yn y sector tai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6e:** Canran yr holl gartrefi sy'n cyrraedd y safonau ansawdd ar gyfer tai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat | 2022-23<br><br>2024 | Safon Ansawdd Tai Cymru<br><br>Swyddfa Ystadegau Gwladol – Canran yr anheddau sydd ag EPC (mesur procsi) | Gwelliant yn ansawdd yr eiddo yn y sector tai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat.<br><br>**Ar gyfer mesur procsi'r sector rhentu preifat**: cynnydd dros amser yn nifer yr eiddo sydd â gradd EPC A-C, a fyddai'n cyfateb i welliant mewn ansawdd. |

**Dangosydd 6a: Canran yr aelwydydd sy'n gwario 30% neu fwy o'u hincwm ar gostau tai**

**Siart 11:** Canran yr aelwydydd sy'n gwario 30% neu fwy o'u hincwm ar gostau tai, dros gyfnodau ariannol treigl tair blynedd[5]





Ffynhonnell: [Arolwg o Adnoddau Teulu], a Llywodraeth Cymru, adroddiad [Llesiant Cymru]

[5]Nid yw'r pwyntiau data sy'n ymestyn dros gyfnod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn (FYE) 2021 yn cynnwys data arolwg FYE 2021 yn y cyfrifiadau, oherwydd credir eu bod o ansawdd gwael. Mae hyn yn golygu bod yr amcangyfrifon ar gyfer y cyfnodau hyn yn seiliedig ar gyfartaleddau treigl dwy flynedd sy'n hepgor data arolwg FYE 2021.

3.14. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, cafodd y diweddariad diweddaraf i adroddiad Llesiant Cymru ei gyhoeddi yn 2024, felly mae'r siart yn adlewyrchu'r data diweddaraf a oedd ar gael bryd hynny. Mae Siart 11 yn dangos, ar gyfer y cyfnod diweddaraf lle roedd data digonol ar gael (blynyddoedd ariannol 2021-22 a 2022-23), fod 15% o aelwydydd yn gwario 30% neu fwy o'u hincwm ar gostau tai. Mae'r ganran hon yn amrywio yn deiliadaeth tai.

**Dangosydd 6b: Cyflenwad Tai**


**Siart 12i** Amcangyfrifon o'r stoc anheddau yn ôl blwyddyn a deiliadaeth, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [Amcangyfrifon o'r stoc anheddau]

3.15. Mae Siart 12i yn dangos yr amcangyfrifon o'r stoc anheddau ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae amcangyfrifon wedi aros yn gymharol gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer awdurdodau lleol wedi cynyddu 600 a'r amcangyfrifon ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi cynyddu 1,900 rhwng 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024.

**Siart 12ii:** Anheddau newydd a gwblhawyd yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely a blwyddyn ariannol, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Adeiladu tai newydd


3.16. Mae Siart 12ii yn dangos bod gan y mwyafrif o'r anheddau newydd a gwblhawyd (tai a fflatiau wedi'u cyfuno) dair ystafell wely. Anheddau un ystafell wely oedd y nifer lleiaf a gwblhawyd. Bu lleihad cyffredinol o 1,014 yn nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd rhwng 2022-23 a 2023-24.

3.17. Cafodd amcangyfrifon o'r angen am dai ychwanegol eu cyhoeddi ym mis Awst 2020 ar lefel genedlaethol a rhanbarthol ar gyfer y cyfnod rhwng 2019 a 2039. Y pwyntiau allweddol yn yr amcangyfrifon hyn oedd yr amcangyfrifwyd y byddai angen rhwng 6,200 ac 8,300 o unedau tai ychwanegol bob blwyddyn, gydag amcangyfrif canolog o 7,400, yn ystod y pum mlynedd gyntaf.

3.18. Fodd bynnag, ers i'r amcangyfrifon diweddaraf o'r angen am dai ychwanegol gael eu cyhoeddi, mae amcangyfrifon newydd o'r boblogaeth o Gyfrifiad 2021 wedi cael eu cyhoeddi. Mae hyn yn golygu bod yr amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 2011 a 2020 wedi cael eu hailsylfaenu a'u diwygio, ac nid yw'r amcanestyngiadau poblogaeth na'r amcanestyniadau aelwydydd dilynol o 2019 (a ddefnyddiwyd yn yr amcangyfrifon o'r angen am dai ychwanegol) yn adlewyrchu'r data demograffig diweddaraf mwyach. Ni ellir diweddaru'r amcangyfrifon o'r angen am dai ychwanegol nes y caiff amcanestyniadau aelwydydd cyfredol eu cyhoeddi yn nes ymlaen yn 2025.

**Dangosydd 6d: Canran yr aelwydydd digartref y rhoddir tenantiaethau iddynt yn y sector tai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat**

**Siart 13:** Canran o achosion lle bu gweithredu cadarnhaol llwyddo yn llwyddo i lleddfu[6]





**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru, Casgliad data [Digartrefedd Statudol]

[6]Cafodd y data hyn eu hadfer yng nghasgliad data Digartrefedd Statudol 2023-24, mae data o 2018-19 wedi cael eu cynnwys yma at ddibenion cymharu.

3.19. Mae Chart 13 yn dangos mai yn 2023-24 cafodd y rhan fwyaf o achosion ei lleddfu drwy dai cymdeithasol LCC, wedi'i Dilyn gan dai cymdeithasol Awdurdod Lleol.

**Dangosydd 6e: Canran yr holl gartrefi sy'n cyrraedd y safonau ansawdd ar gyfer tai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat**

**Siart 14i:** Dosbarthiad stoc tai cymdeithasol yn ôl cydymffurfiaeth â SATC, 31 Mawrth 2014 i 31 Mawrth 2023, Cymru[7]





Ffynhonnell: [Safon Ansawdd Tai Cymru]

[7]Cafodd y data ar gyfer 2020 eu casglu ar 31 Rhagfyr. Ni chasglwyd data yn 2021.

3.20. Erbyn mis Mawrth 2022, canfuwyd bod yr holl stoc tai cymdeithasol yn cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), gan gynnwys

methiannau derbyniol. Roedd tri chwarter (78%) o'r stoc tai cymdeithasol yn cydymffurfio'n llawn.

**Siart 14ii:** Cartrefi wedi'u rhentu'n breifat yng Nghymru sydd ag EPC yn ôl gradd effeithlonrwydd ynni a blwyddyn, o 2013 tan 2022[8]




**Ffynhonnell:** [https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/energyperformance/](https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/energyperformance/)

[8]Nid oes gan bob cartref EPC. Mae dadansoddiad Rhentu Doeth Cymru o ddata EPC yn dangos, ym mis Ebrill 2025, fod gan 90% o eiddo sydd wedi'u cofrestru â Rhentu Doeth Cymru EPC (ond gallai'r EPC fod yn fwy na 10 mlwydd oed mewn rhai achosion).

3.21. Mae Siart 14ii yn dangos bod 48% o'r cartrefi yn y sector rhentu preifat yng Nghymru a gafodd asesiad EPC yn 2024 wedi cael gradd effeithlonrwydd ynni o A, B neu C. Mae'r ganran hon yn debyg o gymharu â chartrefi yn y sector rhentu preifat a aseswyd yn 2023.

# Pennod 4: Canlyniad Strategol 2 – Byrhoedlog

## Bydd pobl yn cael ymateb cyflym ac effeithiol os byddant yn ddigartref

### Trosolwg

4.1. Nod y canlyniad strategol hwn yw adlewyrchu ein hymrwymiad i newid tuag at ddull 'ailgartrefu cyflym' er mwyn sicrhau y bydd pobl sy'n ddigartref yn cael tai diogel, sefydlog a hunangynhaliol cyn gynted â phosibl ac y gallant gael y lefel gywir o gymorth i gyflawni hyn. Yn y tymor byr, rydym yn disgwyl na fydd pobl sy'n ddigartref yn ddigartref am gyfnod hir. Yn y tymor hir, rydym yn disgwyl gweld llai o bobl yn ddigartref yn gyfan gwbl.

**Tabl 9:** Canlyniad Strategol 1: Crynodeb o'r Canlyniad Manwl

| Canlyniad Manwl | Dangosyddion a mesurau | Sut beth yw 'da' |
|---|---|---|
| **1:** Mae pawb sy'n ddigartref yn gallu cael cartref sefydlog mor gyflym â phosibl | + Mae dau allan o'r pedwar dangosydd ar gael er mwyn mesur.<br>— Nid oes data ar gael ar gyfer dau ddangosydd er mwyn mesur | **Tymor byr**: Mae data ar gael ar gyfer yr holl ddangosyddion.<br>**Hirdymor**: Cynnydd cadarnhaol yn erbyn yr holl ddangosyddion. |
| **2:** Nid oes neb yn cael profiad o ddigartrefedd hirdymor | + Mae un allan o'r ddau ddangosydd ar gael er mwyn mesur.<br>— Mesur procsi. | **Tymor byr**: Data ar gael ar gyfer yr holl ddangosyddion a symud i ffwrdd oddi wrth y mesur procsi.<br>**Hirdymor**: Cynnydd cadarnhaol yn erbyn yr holl ddangosyddion. |
| **3:** Gall pobl gael cymorth amlasiantaethol cydgysylltiedig, addas sydd wedi'i deilwra at eu hanghenion, lle y bo angen | + Un dangosydd ar gael er mwyn mesur.<br>+ Dau ddangosydd yn cael eu casglu o fewn fframwaith canlyniadau'r Grant Cymorth Tai.<br>— Dangosyddion y Grant Cymorth Tai ddim ar gael er mwyn mesur eto. | **Tymor byr**: Mae data ar gael ar gyfer yr holl ddangosyddion<br>**Hirdymor**: Cynnydd cadarnhaol yn erbyn yr holl ddangosyddion. |


## Canlyniad Manwl 1: Mae pawb sy'n ddigartref yn gallu cael cartref sefydlog mor gyflym â phosibl

**Tabl 10:** Canlyniad manwl 1, Byrhoedlog: Crynodeb o'r dangosydd

| Canlyniad Manwl 1 – Dangosyddion | Y data diweddaraf sydd ar gael | Ffynhonnell/ argaeledd | Sut beth yw 'da' |
|---|---|---|---|
| **1a:** Hyd yr amser rhwng lleoli mewn llety dros dro i ddechrau a symud i lety sefydlog (yn ôl categori hyd) | 2023-24 | Ffurflenni data Digartrefedd Statudol | Lleihad yn hyd yr amser a dreuliwyd ym mhob math o lety dros dro. |
| **1b:** Nifer y bobl a leolwyd mewn llety hirdymor addas yn ystod y cyfnod | Mehefin 2025 | Data ar Ddarpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan | Lleihad yn nifer y bobl a leolwyd mewn llety hirdymor addas. |
| **1c:** Hyd yr amser rhwng asesu bod pobl yn ddigartref a'u symud i lety sefydlog | Dd/G | Dim ffynonellau data ar gael | Lleihad yn hyd yr amser rhwng asesu bod pobl yn ddigartref a'u symud i lety sefydlog. |
| **1d:** Hyd yr amser rhwng nodi bod pobl yn ddigartref ac ar y stryd a'u symud i lety sefydlog | Dd/G | Dim ffynonellau data ar gael | Lleihad yn hyd yr amser rhwng nodi bod pobl yn ddigartref ac ar y stryd a'u symud i lety sefydlog. |


**Dangosydd 1a: Hyd yr amser rhwng lleoli mewn llety dros dro i ddechrau a symud i lety sefydlog (yn ôl categori hyd)**

**Siart 15i:** Nifer yr aelwydydd y rhoddwyd llety iddynt dros dro yn ôl hyd a math o lety yn 2022-23, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data Digartrefedd Statudol

**Siart 15ii:** Nifer yr aelwydydd y rhoddwyd llety iddynt dros dro yn ôl hyd a math o lety yn 2023-24, Cymru





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data Digartrefedd Statudol

4.2. O Siartiau 15i a 15ii yn y drefn honno, gallwn weld bod nifer yr aelwydydd y rhoddwyd llety dros dro iddynt wedi cynyddu rhwng 2022-23 a 2023-24 yn achos y rhan fwyaf o gyfnodau amser, ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o lety.

**Dangosydd 1b: Nifer y bobl a leolwyd mewn llety hirdymor addas yn ystod y cyfnod**

**Siart 16:** Nifer yr unigolion a leolir mewn llety hirdymor addas bob mis, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan

4.3. O'r siart, gwelwn fod nifer y bobl a leolir mewn llety hirdymor addas bob mis dros y 12 mis diwethaf wedi amrywio o ychydig dros 630 i ychydig yn llai na 900 o bobl bob mis.


## Canlyniad manwl 2: Nid oes neb yn cael profiad o ddigartrefedd hirdymor

**Tabl 11:** Canlyniad manwl 2, Byrhoedlog: Crynodeb o'r dangosydd

| Canlyniad Manwl 2 – Dangosyddion | Y data diweddaraf sydd ar gael | Ffynhonnell/ argaeledd | Sut beth yw 'da' |
|---|---|---|---|
| **2a:** Nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd hirdymor (absoliwt a chyfradd fesul 10,000 o aelwydydd) | 2023-24 | Ffurflenni data Digartrefedd Statudol – mesur procsi | Lleihad yn nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd hirdymor. |
| **2b:** Nifer y bobl sy'n ddigartref ac ar y stryd am gyfnod hir (absoliwt a chyfradd fesul 100,000 o aelwydydd) | Dd/G | Posibilrwydd o gasglu'r wybodaeth hon o fewn y data ar Ddarpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan | Lleihad yn nifer y bobl sy'n ddigartref ac ar y stryd am gyfnod hir. |

**Dangosydd 2a: Nifer yr aelwydydd sy'n profi digartrefedd hirdymor**

**Siart 17:** Nifer yr aelwydydd mewn llety dros dro am fwy na chwe mis, fesul blwyddyn ariannol a math o lety, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data [Digartrefedd Statudol](Digartrefedd Statudol)

4.4. Mae Siart 17 yn dangos y bu cynnydd yn nifer yr aelwydydd mewn llety dros dro am fwy na chwe mis ar gyfer pob math o lety heblaw am 'Llety yn y sector rhentu preifat' ac 'arall', rhwng 2022-23 a 2023-24. Y math o lety lle y gwelwyd y cynnydd mwyaf, sef 261, yw 'Llety yn y sector cyhoeddus', a'r math o lety lle y gwelwyd y cynnydd mwyaf ond un, sef 213, yw llety 'gwely a brecwast'.


## Canlyniad Manwl 3: Gall pobl gael cymorth amlasiantaethol cydgysylltiedig, addas sydd wedi'i deilwra at eu hanghenion, lle y bo angen

**Tabl 12:** Canlyniad Manwl 3, Byrhoedlog: Crynodeb o'r dangosydd

| Canlyniad Manwl 3 – Dangosyddion | Y data diweddaraf sydd ar gael | Ffynhonnell/ argaeledd | Sut beth yw 'da' |
|---|---|---|---|
| **3a:** Nifer yr aelwydydd sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o fod yn ddigartref. | 2023-24 | Ffurflenni data Digartrefedd Statudol | Lleihad yn nifer yr aelwydydd sy'n ddigartref ac yn wynebu'r risg o fod yn ddigartref. |
| **3b:** Prif Ganlyniad 2 y Grant Cymorth Tai – Mae pobl wedi llwyddo i gael llety argyfwng / dros dro neu lety â chymorth byrdymor. | Dd/G | Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai – bydd data ar gael ar gyfer adroddiad y Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn y dyfodol yn amodol ar gysondeb ac ansawdd y data. | **Tymor byr**: Cynnydd yn nifer y bobl sy'n gallu cael llety argyfwng/dros dro a llety â chymorth byrdymor<br><br>**Tymor hir:** Lleihad yn nifer y bobl sy'n gallu cael llety argyfwng/dros dro a llety â chymorth byrdymor am fod llai o alw am lety dros dro. |
| **3c:** Prif Ganlyniad 3 y Grant Cymorth Tai – Mae pobl yn gallu cael a chadw cartref sefydlog addas. | Dd/G | Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai – bydd data ar gael ar gyfer adroddiad y Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn y dyfodol yn amodol ar gysondeb ac ansawdd y data. | Cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael ac yn cadw cartref sefydlog addas. |


**Dangosydd 3a: Nifer yr aelwydydd sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o fod yn ddigartref.**

**Siart 18i:** Nifer yr aelwydydd o dan fygythiad o ddigartrefedd, fesul blwyddyn ariannol, Cymru




Llywodraeth Cymru, Casgliad data Digartrefedd Statudol

**Siart 18ii:** Nifer yr aelwydydd digartref y mae dyletswydd i sicrhau llety'n ddyledus iddynt, fesul blwyddyn ariannol, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data Digartrefedd Statudol

4.5. Mae Siart 18i yn dangos lleihad o 474 yn nifer yr aelwydydd o dan fygythiad o ddigartrefedd rhwng 2022-23 a 2023-24. Mae Siart 18ii yn dangos y bu cynnydd (o 1,002 o aelwydydd) rhwng 2022-23 a 2023-24 yn nifer yr aelwydydd digartref y mae dyletswydd i sicrhau llety'n ddyledus iddynt.

# Pennod 5: Canlyniad Strategol 3 – Ddim yn digwydd eto

## Ni fydd pobl yn mynd drwy gyfnodau lluosog o ddigartrefedd

### Trosolwg

5.1. Nod y canlyniad strategol hwn yw adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau bod gennym system sy'n rhoi'r bobl gywir yn y cartrefi cywir yn y cymunedau cywir gyda'r cymorth cywir, er mwyn galluogi pobl i lwyddo a ffynnu. Yn y tymor byr, rydym yn disgwyl i nifer yr achosion o ddigartrefedd mynych a pharhaus leihau (h.y. senarios 'drws troi'). Yn y tymor hir, rydym yn disgwyl gweld llai o bobl yn ddigartref fwy nag unwaith.

**Tabl 13:** Canlyniad Strategol 3: Crynodeb o'r Canlyniadau Manwl

| Canlyniad Manwl | Dangosyddion a mesurau | Sut beth yw 'da' |
|---|---|---|
| **1:** Ni fydd pobl yn mynd drwy gyfnodau lluosog o ddigartrefedd | + Mae un allan o'r ddau ddangosydd ar gael er mwyn mesur.<br>— Mesur procsi. | **Tymor byr**: Symud i ffwrdd oddi wrth y mesur procsi, a data ar gael ar gyfer yr holl ddangosyddion.<br>**Hirdymor**: Cynnydd cadarnhaol yn erbyn yr holl ddangosyddion |
| **2:** Mae pobl yn cael cymorth sy'n briodol i'w hanghenion i gadw eu tenantiaethau | + Mae tri allan o'r pedwar dangosydd ar gael er mwyn mesur.<br>— Mesur procsi yw un o'r dangosyddion mesuradwy. | **Tymor byr**: Symud i ffwrdd oddi wrth y mesur procsi, a data ar gael ar gyfer yr holl ddangosyddion.<br>**Hirdymor**: Cynnydd cadarnhaol yn erbyn yr holl ddangosyddion |
| **3:** Gall pobl gael y cartref cywir yn y lle cywir | + Mae dau allan o'r pedwar dangosydd ar gael er mwyn mesur.<br>— Mesur procsi yw un o'r dangosyddion mesuradwy. | **Tymor byr**: Symud i ffwrdd oddi wrth y mesur procsi, a data ar gael ar gyfer yr holl ddangosyddion.<br>**Hirdymor**: Cynnydd cadarnhaol yn erbyn yr holl ddangosyddion |


**Canlyniad Manwl 1: Ni fydd pobl yn mynd drwy gyfnodau lluosog o ddigartrefedd**

**Tabl 14:** Canlyniad Manwl 1, Ddim yn digwydd eto: crynodeb o'r dangosydd

| Canlyniad Manwl 1 – Dangosyddion | Y data diweddaraf sydd ar gael | Ffynhonnell/ argaeledd | Sut beth yw 'da' |
|---|---|---|---|
| **1a:** Nifer yr aelwydydd a dderbyniodd gymorth o dan y ddyletswydd cymorth (Adran 73 neu Adran 75) a gyflwynodd gais digartrefedd arall yn ddiweddarach (o fewn **12** mis) (absoliwt, fesul 10,000 o aelwydydd, ac fel cyfran o'r holl geisiadau) | Mehefin 2025 | Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan – Mesur procsi | Nifer yr aelwydydd sydd wedi cael cymorth o dan y ddyletswydd cymorth ac wedi cyflwyno cais digartrefedd arall wedyn |
| **1b:** Nifer y bobl sy'n ddigartref ac ar y stryd am gyfnod hir | Dd/G | Posibilrwydd o gasglu'r wybodaeth hon o fewn y data ar Ddarpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan | Lleihad yn nifer y bobl sy'n ddigartref ac ar y stryd am gyfnod hir. |

**Dangosydd 1a: Nifer yr aelwydydd a dderbyniodd gymorth o dan y ddyletswydd cymorth (Adran 73 neu Adran 75) a gyflwynodd gais digartrefedd arall yn ddiweddarach (o fewn 12 mis) (absoliwt, fesul 10,000 o aelwydydd, ac fel cyfran o’r holl geisiadau)**

**Siart 19:** Nifer yr achosion o bobl yn cael eu lleoli mewn llety dros dro yn ystod y mis, sydd wedi cael eu lleoli mewn llety dros dro o'r blaen yn ystod y 12 mis diwethaf[9]




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan]

[9]Caiff y dangosydd hwn ei frasamcanu gan ddefnyddio nifer yr achosion o bobl yn cael eu lleoli mewn llety dros dro yn ystod y mis, sydd wedi cael eu lleoli mewn llety dros dro o'r blaen yn ystod y 12 mis diwethaf.

5.2. Dros y 12 mis diwethaf, mae nifer y bobl sydd wedi cael eu lleoli mewn llety dros dro o'r blaen yn ystod y 12 mis diwethaf (mae'r ffigur hwn yn ffigur treigl ar gyfer pob mis o ddata), wedi amrywio o 312 ym mis Gorffennaf 2024, i 162 ym mis Ebrill 2025.

**Canlyniad Manwl 2: Mae pobl yn cael cymorth sy'n briodol i'w hanghenion i gadw eu tenantiaethau**

**Tabl 15:** Canlyniad Manwl 2, Ddim yn digwydd eto: crynodeb o'r dangosydd


| Canlyniad Manwl 2 – Dangosyddion | Y data diweddaraf sydd ar gael | Ffynhonnell/ argaeledd | Sut beth yw 'da' |
|---|---|---|---|
| Cysylltiad â'r Grant Cymorth Tai: Nid yw pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn ddigartref | Dd/G | Croesgyfeirio at Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai – bydd data ar gael ar gyfer adroddiad y Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn y dyfodol yn amodol ar gysondeb ac ansawdd y data. | Cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai ac nad ydynt yn ddigartref. |
| **2a:** Nifer y bobl sy'n ddigartref fwy nag unwaith | Mehefin 2025 | Darpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan – Mesur procsi | Lleihad yn nifer y bobl sy'n ddigartref fwy nag unwaith. |
| **2b:** Nifer y bobl sy'n ddigartref ac ar y stryd fwy nag unwaith | Dd/G | Posibilrwydd o gasglu'r wybodaeth hon o fewn y data ar Ddarpariaeth Llety Digartrefedd a Chysgu Allan | Lleihad yn nifer y bobl sy'n ddigartref ac ar y stryd fwy nag unwaith. |
| **2c:** Cyfradd cadw tenantiaeth ar gyfer pob prosiect Tai yn Gyntaf yng Nghymru | Mawrth 2023 | Traciwr Tai yn Gyntaf Cymorth Cymru | Cynnydd yn y gyfradd cadw tenantiaeth ar gyfer pob prosiect Tai yn Gyntaf. |
| **2d:** Nifer y bobl y mae eu tenantiaeth Tai yn Gyntaf wedi dod i ben, yn ôl rheswm<br>➢ Carchar<br>➢ Marwolaeth<br>➢ Symud i leoliad iechyd/gofal cymdeithasol<br>➢ Dewis gadael/eiddo gadawedig<br>➢ Cynllun symud i denantiaeth gyntaf nad yw'n un Tai yn Gyntaf<br>➢ Troi allan<br>➢ Arall/Anhysbys | Mawrth 2023 | Traciwr Tai yn Gyntaf Cymorth Cymru | Cynnydd yn nifer y bobl y daeth eu tenantiaeth Tai yn Gyntaf i ben oherwydd cynllun symud i denantiaeth gyntaf nad yw'n un Tai yn Gyntaf. |

**Dangosydd 2a: Nifer y bobl sy'n ddigartref fwy nag unwaith**

5.3. Mae'r ffynhonnell ddata ar gyfer mesur yn erbyn y dangosydd hwn yr un fath â'r un a ddefnyddir ar gyfer dangosydd 1a o dan Ganlyniad Strategol 5, felly gellir croesgyfeirio gwybodaeth am dueddiadau yn y data at Siart 18 yn hytrach na'i dyblygu yma.

**Dangosydd 2c: Cyfradd cadw tenantiaeth ar gyfer pob prosiect Tai yn Gyntaf yng Nghymru**

**Siart 20:** Cyfradd cadw tenantiaeth ar gyfer pob prosiect Tai yn Gyntaf yng Nghymru ers mis Chwefror 2018




**Ffynhonnell:** Cymorth Cymru, Traciwr Tai yn Gyntaf Cymru Chwefror 2018 – Mawrth 2023

5.4. O Siart 20, gwelir bod y gyfradd cadw tenantiaeth ar gyfer pob prosiect Tai yn Gyntaf yng Nghymru yn dal yn uchel. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod 91.5% o denantiaethau Tai yn Gyntaf yn cael eu cadw ar 31 Mawrth 2023. Canran y tenantiaethau sy'n cael eu cadw allan o gyfanswm nifer y tenantiaethau a ddechreuwyd, heb gynnwys nifer y tenantiaethau a ddaeth i ben am fod y person wedi marw, yw'r gyfradd cadw tenantiaeth.

**Dangosydd 2d: Nifer y bobl y mae eu tenantiaeth Tai yn Gyntaf wedi dod i ben, yn ôl rheswm**

**Tabl 16:** Rheswm pam y daeth tenantiaeth Tai yn Gyntaf i ben, ers mis Chwefror 2018

| Rheswm pam y daeth tenantiaeth Tai yn Gyntaf i ben | Hyd at fis Mawrth 2023 |
|---|---|
| Marwolaeth | 14 |
| Carchar | 10 |
| Symud i leoliad neu sefydliad iechyd/gofal cymdeithasol | 7 |

| | |
|---|---|
| Dewisodd y cleient adael y denantiaeth/gadawodd y cleient yr eiddo | 5 |
| Cynllun symud i denantiaeth nad yw'n un Tai yn Gyntaf | 4 |
| Troi allan | 2 |
| Arall/Anhysbys | 3 |
| **Cyfanswm** | **45** |

**Ffynhonnell:** Cymorth Cymru, Traciwr Tai yn Gyntaf Cymru Chwefror 2018 – Mawrth 2023

5.5. O'r tabl, gwelir bod 45 o denantiaethau Tai yn Gyntaf wedi dod i ben rhwng 1 Chwefror 2018 a 31 Mawrth 2023. O'r bobl y daeth eu tenantiaeth i ben, bu farw 14 (sef 31%), a daethpwyd â thenantiaeth 10 (sef 22%) i ben am iddynt gael eu hanfon/galw yn ôl i'r carchar.

**Canlyniad Manwl 3: Gall pobl gael y cartref cywir yn y lle cywir**

**Tabl 17:** Canlyniad Manwl 3, Ddim yn digwydd eto: crynodeb o'r dangosydd


| **Canlyniad Manwl 3 – Dangosyddion** | **Y data diweddaraf sydd ar gael** | **Ffynhonnell/ argaeledd** | **Sut beth yw 'da'** |
|---|---|---|---|
| Cysylltiad â'r Grant Cymorth Tai: Nid yw pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn ddigartref | Dd/G | Croesgyfeirio at Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai – bydd data ar gael ar gyfer adroddiad y Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn y dyfodol yn amodol ar gysondeb ac ansawdd y data. | Cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai ac nad ydynt yn ddigartref. |
| **3a:** Nifer a chanran y bobl sy'n cadw eu tenantiaethau 12 mis ar ôl derbyn cymorth (Anghenion Isel/Canolig) | Dd/G | Dim ffynonellau data ar gael | Cynnydd yn nifer a chanran y bobl sy'n cadw eu tenantiaethau 12 mis ar ôl derbyn cymorth. |
| **3b:** Nifer a chanran y bobl sy'n cadw eu tenantiaethau 12 mis ar ôl cael cymorth tai dwys fel Tai yn Gyntaf (Anghenion Uchel) | Mawrth 2023 | Traciwr Tai yn Gyntaf Cymorth Cymru – mesur procsi | Cynnydd yn nifer a chanran y bobl sy'n cadw eu tenantiaethau 12 mis ar ôl cael cymorth tai dwys. |
| **3c:** Nifer a chanran y bobl sydd wedi aros mewn llety â chymorth sy'n cadw eu tenantiaethau 12 mis ar ôl dechrau'r denantiaeth (Anghenion Dwys) | Dd/G | Dim ffynonellau data ar gael | Cynnydd yn nifer a chanran y bobl sydd wedi aros mewn llety â chymorth sy'n cadw eu tenantiaethau 12 mis ar ôl dechrau'r denantiaeth. |
| **3d:** Canran y bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw | 2021-22 | Adroddiad Llesiant Cymru 2024<br>*Noder: Nid oedd diweddariad i'r data yn adroddiad 2024 o gymharu ag adroddiad 2023* | Cynnydd yng nghanran y bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw. |

**Dangosydd 3b: Nifer a chanran y bobl sy'n cadw eu tenantiaethau 12 mis ar ôl cael cymorth tai dwys fel Tai yn Gyntaf (Anghenion Uchel)**

5.6. Mae'r ffynhonnell ddata ar gyfer y dangosydd hwn yr un fath â'r un a ddefnyddir ar gyfer dangosydd 2c o dan Ganlyniad Strategol 5, felly gellir croesgyfeirio gwybodaeth am dueddiadau yn y data at Siart 19 yn hytrach na'i dyblygu yma.

**Dangosydd 3d: Canran y bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw**

**Siart 21:** Cynnydd yng nghanran y bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw, fesul blwyddyn ariannol, Cymru




**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru, Arolwg Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, adroddiad Llesiant Cymru

5.7. O Siart 21, gwelir bod canran y bobl sy'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw ynddo wedi cynyddu rhwng 2021-22 a 2018-19, o 85% yn 2018-19 i 89% yn 2021-22. Nid oes gwahaniaeth sylweddol i'w weld o 2020-21 o gymharu â 2021-22.

# Pennod 6: Canlyniad Strategol 4 – Y Gweithlu

## Gweithlu cymorth digartrefedd a thai cadarn, a werthfawrogir ac a gydnabyddir am ei arbenigedd

### Trosolwg

6.1. Mae'r canlyniad strategol hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddatblygu gweithlu cymorth digartrefedd a thai cadarn, a werthfawrogir ac a gydnabyddir am ei arbenigedd. Caiff data ar gyfer y canlyniad strategol hwn eu casglu drwy arolwg blynyddol. Cynhelir yr arolwg ar-lein rhwng 21 Mawrth a 16 Mai 2025 at 555 o ymatebion cymwys.

6.2. Mae canfyddiadau llawn yr arolwg wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Rydym wedi cyhoeddi'r canfyddiadau cryno yma; mae'r adroddiad llawn hefyd yn cynnwys canfyddiadau ansoddol a themâu allweddol o bob un o gwestiynau'r arolwg yn ogystal â gwahaniaethau meintiol allweddol rhwng grwpiau o ymatebwyr (adran 5).

6.3. Mae hon yn ail gylchred o'r Arolwg Gweithlu. Cynhelwyd y gylchred gyntaf o'r ymchwil hon rhwng Tachwedd 2023 a Ionawr 2024. Mae cymariaethau rhwng y cylchredau yn gyfyngedig gan nad yw'n bosibl pennu a yw'r un unigolion wedi cwblhau'r arolwg bob tro.

6.4. Roedd yr arolwg yn targedu'r holl unigolion y mae eu rôl yn darparu gwasanaethau neu weithgareddau sydd naill ai'n atal pobl rhag bod yn ddigartref neu'n sefydlogi eu sefyllfa o ran tai; neu sy'n helpu pobl ddigartref i gael llety, gan gynnwys dod o hyd i lety sefydlog ac aros ynddo. Roedd hyn yn cynnwys yr holl staff a rheolwyr o fewn awdurdodau lleol, cymdeithasau tai neu sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau a gweithgareddau cymorth ar gyfer unigolion sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.

**Tabl 18:** Canlyniad Strategol 4: Crynodeb o'r Canlyniadau Manwl

| Canlyniad Manwl | Dangosyddion a mesurau | Sut beth yw 'da' |
|---|---|---|
| **1:** Mae staff cymorth digartrefedd a thai yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u cydnabod am eu sgiliau a'u profiad | + Caiff data ar gyfer pob un o'r tri chanlyniad manwl eu casglu drwy arolwg blynyddol a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru.<br><br>+ Cafodd cwestiynau'r arolwg eu llunio gan Dîm Ymchwil Tai Llywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â thîm polisi'r Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd a rhanddeiliaid allanol o fewn | Cynnydd yn nifer y staff cymorth digartrefedd a thai sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u cydnabod am eu sgiliau a'u profiad. |
| **2:** Mae staff cymorth digartrefedd a thai yn cael y cymorth a'r amser, ac maent yn fedrus ac yn hyderus, i roi cymorth sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn | | Cynnydd yn nifer y staff cymorth digartrefedd a thai sy'n teimlo eu bod yn cael y cymorth a'r amser, a'u bod yn fedrus ac yn hyderus, i roi cymorth sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn |
| **3:** Mae recriwtio a chadw staff cymorth digartrefedd a thai yn | | Cynnydd yn nifer y staff cymorth digartrefedd a thai sy'n cael eu |

| | | |
|---|---|---|
| diwallu anghenion tai pobl yng Nghymru | Cymorth Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru. | recriwtio ac yn y gyfradd cadw staff. |

**Canlyniad manwl 1: Mae staff cymorth digartrefedd a thai yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u cydnabod am eu sgiliau a'u profiad**

**Canlyniadau cryno**

**Tabl 19:** Y ganran sy'n cytuno â'r datganiad 'Rwy'n cael fy ngwerthfawrogi am fy sgiliau a'm profiad gan...'

| | Anghytuno'n Gryf | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Cytuno | Cytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Fy rheolwr (n=503) | 2.4 | 4.4 | 7.0 | 36.6 | 49.7 |
| Fy sefydliad (n=497) | 3.6 | 6.8 | 18.5 | 41.2 | 29.8 |
| Gweithwyr proffesiynol o wasanaethau cyhoeddus eraill (n=498) | 2.2 | 7.8 | 19.9 | 50.4 | 19.7 |

**Tabl 20:** Canran sy'n cytuno â'r datganiad 'Rwy'n cael fy nghefnogi yn fy swydd gan...'

| | Anghytuno'n Gryf | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Cytuno | Cytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Fy rheolwr (n= 499) | 2.8 | 2.6 | 9.2 | 30.9 | 54.5 |
| Fy sefydliad (n=497) | 3.8 | 6.2 | 15.3 | 41.6 | 33.0 |
| Gweithwyr proffesiynol o wasanaethau cyhoeddus eraill (n=496) | 2.8 | 7.1 | 25.6 | 48.6 | 15.9 |

6.5. Gan amlaf, roedd ymatebwyr yn ymateb yn gadarnhaol i gwestiynau am deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu sgiliau a'u profiadau ac yn cael eu cefnogi yn eu swyddi. O'r chwe datganiad yn y ddau faes hyn, yr ateb mwyaf cyffredin i bedwar ohonynt oedd 'Cytuno.' Yn benodol, y ddau ddatganiad ynghylch sut roedd cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn cael eu trin gan eu rheolwyr gafodd y lefel uchaf o gytundeb, a 'Cytuno'n gryf' oedd yr ymateb mwyaf cyffredin.

6.6. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion i'r arolwg yn amrywio wrth ystyried y mathau o sefydliadau cyflogi (trydydd sector, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai) ac yn ôl rôl (gweithwyr rheng flaen a staff rheoli. Mae Adrannau 4 a 5 o Y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd: Arolwg Gweithlu 2025 yn cynnwys mwy o fanylion.

**Tabl 21:** Y ganran sy'n cytuno â'r datganiad 'Rwy'n cael fy nghydnabod a'm gwobrwyo'n briodol am fy mherfformiad...'

| | **Anghytun o'n Gryf** | **Anghytuno** | **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** | **Cytuno** | **Cytuno'n Gryf** |
|---|---|---|---|---|---|
| Yn fy sefydliad (n= 493) | 9.3 | 21.1 | 35.9 | 24.3 | 9.3 |
| O'i gymharu â swyddi tebyg yn y sector (n=495) | 5.7 | 16.4 | 38.2 | 27.7 | 12.1 |
| O gymharu â swyddi tebyg mewn sectorau eraill (n=498) | 7.0 | 13.3 | 25.7 | 36.3 | 17.7 |

**Tabl 22:** Y ganran sy'n cytuno â'r datganiad 'Rwy'n cael fy nghydnabod a'm gwobrwyo'n briodol am lefel fy nghyfrifoldeb...'

| | **Anghytuno'n Gryf** | **Anghytuno** | **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** | **Cytuno** | **Cytuno'n Gryf** |
|---|---|---|---|---|---|
| Yn fy sefydliad (n= 491) | 8.8 | 20.4 | 38.1 | 25.7 | 7.1 |
| O gymharu â swyddi tebyg yn y sector (n=494) | 5.7 | 18.8 | 36.8 | 29.1 | 9.5 |
| O gymharu â swyddi tebyg mewn sectorau eraill (n=497) | 6.6 | 16.3 | 22.1 | 39.0 | 15.9 |

6.7. A Ymysg y chwe chwestiwn a oedd yn asesu a oedd cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn cael eu 'cydnabod a'u gwobrwyo'n briodol' am lefel eu perfformiad neu lefel eu cyfrifoldeb, yr ateb mwyaf cyffredin i bedwar ohonynt oedd 'Dim yn

Cytuno nac yn Anghytuno.’ Yr ymateb mwyaf cyffredin i’r datganiadau sy'n ymwneud â'r cyfranogwr yn teimlo ei fod yn cael ei wobrwyo am ei berfformiad a'i gyfrifoldeb o'i gymharu â swyddi tebyg oedd ‘Cytuno.’

**Tabl 23:** Canran sy'n cytuno â'r datganiad ‘Mae gweithio yn y sector digartrefedd a chymorth tai wedi cael effaith gadarnhaol ar fy ymdeimlad o lesiant...’

| | Anghytuno’n Gryf | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Cytuno | Cytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Pan rwyf yn y gwaith (n= 497) | 6.8 | 19.1 | 22.7 | 35.6 | 15.7 |
| Tu allan i waith (n=495) | 5.9 | 17.0 | 29.9 | 33.3 | 13.9 |
| Yn gyffredinol (n=496) | 5.4 | 17.5 | 27.8 | 36.3 | 12.9 |

6.8. Ateb mwyaf cyffredin yr ymatebwyr i ddatganiadau ynghylch a oeddent yn teimlo bod gweithio yn y sector wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hymdeimlad o les oedd ‘Cytuno.’

**Tabl 24:** Y ganran sy'n cytuno â datganiadau ynghylch trawma mechnïol

| | Anghytuno’n Gryf | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Cytuno | Cytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Gall trawma mechnïol ddigwydd o ganlyniad i fy swydd (n=492) | 1.2 | 4.5 | 11.6 | 45.7 | 37.0 |
| Rwy'n teimlo bod fy sefydliad yn fy nghefnogi i ddelio ag effaith trawma mechnïol (n=491) | 4.1 | 11.6 | 21.4 | 39.5 | 23.4 |

6.9. Ateb mwyaf cyffredin y cyfranogwyr i gwestiynau ar drawma mechnïol, oedd ‘cytuno’ bod trawma mechnïol yn gallu digwydd o ganlyniad i'w swydd a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddelio ag effeithiau trawma mechnïol.

6.10. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion i'r arolwg yn amrywio wrth ystyried y mathau o sefydliadau cyflogi (trydydd sector, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai) ac yn ôl rôl (gweithwyr rheng flaen a staff rheoli. Mae

Adrannau 4 a 5 o Y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd: Arolwg Gweithlu 2025 yn cynnwys mwy o fanylion.

**Canlyniad manwl 2: Mae staff cymorth digartrefedd a thai yn cael y cymorth a'r amser, ac maent yn fedrus ac yn hyderus, i roi cymorth sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn**

**Tabl 25:** Y ganran sy’n cytuno â datganiadau ar gymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ystyriol o drawma (PCTIS)

| | **Anghytuno’n Gryf** | **Anghytuno** | **Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno** | **Cytuno** | **Cytuno'n Gryf** | **Anghytuno’n Gryf** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n deall egwyddorion PCTIS (n=462) | 3.2 | | 12.8 | 24.7 | 34.2 | 25.1 |
| Rwy'n defnyddio dull PCTIS yn fy ngwaith (n=463) | 2.2 | | 11.7 | 20.1 | 41.9 | 24.2 |
| Mae rheolwyr yn fy sefydliad yn hyrwyddo PCTIS (n=463) | 3.2 | | 10.8 | 19.9 | 41.9 | 24.2 |
| Rwy'n gallu cael gafael ar hyfforddiant ynghylch PCTIS (n=464) | 3.4 | | 13.8 | 21.3 | 36.6 | 24.8 |
| Rwy'n cael fy annog i ymgymryd â hyfforddiant sy'n ymwneud â PCTIS (n=464) | 2.2 | | 7.3 | 11.0 | 48.1 | 31.5 |
| Rwy'n gallu rhoi egwyddorion PCTIS ar waith yn hyderus (n=463) | 1.5 | | 7.8 | 18.4 | 42.8 | 29.6 |

6.11. Mae cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy’n ystyriol o drawma yn ddull o ddarparu cymorth sy'n seiliedig ar y ddealltwriaeth y gall dod i gysylltiad â thrawma effeithio ar ddatblygiad niwrolegol, biolegol, seicolegol a chymdeithasol unigolyn ac sy'n ceisio atal ail greu’r trawma.

6.12. Yr ymateb mwyaf cyffredin i bob datganiad yn ymwneud â chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ystyriol o drawma oedd bod yr ymatebwyr yn ‘Cytuno’. Dywedodd cyfran uwch o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n hyderus yn eu gallu i roi egwyddorion Cymorth sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ac sy’n Ystyriol o Drawma ar waith (72.4%) na'r rheini a ddywedodd eu bod yn deall yr egwyddorion hynny'n llawn (59.3%)

6.13. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion i'r arolwg yn amrywio wrth ystyried y mathau o sefydliadau cyflogi, y math o rôl a'r defnydd o gymorth ystyriol o drawma sy'n canolbwyntio ar unigolion. Mae Adrannau 4 a 5 o Y Fframwaith

Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd: Arolwg Gweithlu 2025 yn cynnwys mwy o fanylion.

**Tabl 26:** Y ganran sy'n cytuno â datganiadau ar ymarfer myfyriol

| | Anghytuno'n Gryf | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Cytuno | Cytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n cael fy annog i gymryd rhan mewn ymarfer myfyriol rheolaidd (n=461) | 9.3 | 18.7 | 22.1 | 36.7 | 13.2 |
| Mae gen i'r amser i gymryd rhan mewn ymarfer myfyriol rheolaidd fel rhan o fy swydd (n=464) | 4.5 | 13.1 | 18.8 | 38.8 | 24.8 |

6.14. Roedd y gyfran uchaf o ymatebwyr yn 'Cytuno' eu bod yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn ymarfer myfyriol rheolaidd a bod ganddynt ddigon o amser i wneud hynny yn eu swydd.

**Canlyniad manwl 3: Mae recriwtio a chadw staff cymorth digartrefedd a thai yn diwallu anghenion tai pobl yng Nghymru**

**Tabl 27:** Y ganran sy'n cytuno â datganiadau ar ddatblygiad proffesiynol

| | Anghytuno'n Gryf | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Cytuno | Cytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae digon o gyfleoedd i mi ddatblygu fy ngyrfa (n=457) | 3.3 | 8.5 | 17.3 | 47.0 | 23.9 |
| Mae'r broses ar gyfer datblygu gyrfa yn deg (n=458) | 2.4 | 7.4 | 19.7 | 49.8 | 20.7 |
| Rwy'n gallu manteisio ar y cyfleoedd dysgu a datblygu cywir pan fydd angen i mi (n=457) | 3.3 | 7.7 | 14.4 | 52.3 | 22.3 |
| Rwy'n cael fy hyfforddi'n rheolaidd i gefnogi fy nysgu (n=457) | 5.9 | 14.4 | 21.7 | 38.3 | 19.7 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae'r gweithgareddau dysgu a datblygu rwyf wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi gwella fy mherfformiad (n=459) | 4.6 | 11.1 | 27.2 | 37.9 | 19.2 |
| Mae’r gweithgarwch dysgu a datblygu rwyf wedi'u cwblhau wrth weithio i fy sefydliad yn fy helpu i ddatblygu fy ngyrfa (n=459) | 5.9 | 14.8 | 19.0 | 39.7 | 20.7 |

**Tabl 27:** Y ganran sy'n cytuno â datganiadau ar amodau gwaith

| | Anghytuno’n Gryf | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Cytuno | Cytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n falch o ddweud wrth eraill fy mod yn gweithio yn y sector digartrefedd a chymorth tai (n=458) | 3.1 | 4.6 | 12.7 | 41.9 | 37.8 |
| Mae fy sefydliad yn parchu gwahaniaethau unigol rhwng gweithwyr (n=460) | 1.7 | 5.0 | 13.9 | 38.0 | 41.3 |
| Rwy'n cael fy nhrin yn deg yn y gwaith (n=457) | 2.4 | 4.6 | 10.5 | 42.9 | 39.6 |

6.15. Mewn ymateb i gwestiynau am amodau gwaith, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn ‘Cytuno’ eu bod yn teimlo'n falch o ddweud wrth eraill beth yw eu swydd a'u bod yn cael eu trin yn deg yn y gweithle.

6.16. Ar ben hynny, y datganiad ynghylch a yw eu sefydliad yn parchu gwahaniaethau unigol oedd yr ymateb mwyaf cyffredin ymysg gweithwyr a gafodd y lefel uchaf o gytundeb, a rheini a oedd yn ‘Cytuno'n Gryf’.

6.17. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion i'r arolwg yn amrywio wrth ystyried y mathau o sefydliadau cyflogi a dysgu a datblygu. Mae Adrannau 4 a 5 o Y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd: Arolwg Gweithlu 2025 yn cynnwys mwy o fanylion.

# Pennod 7: Canlyniad Strategol 5 – Ymateb Gwasanaethau Cyhoeddus

### Mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio'n effeithiol mewn ffordd ystyriol o drawma i roi diwedd ar ddigartrefedd

#### Trosolwg

7.1. Dalfan yw'r canlyniad strategol hwn oherwydd yr adolygiad o ddeddfwriaeth digartrefedd sy'n dal i fynd rhagddo. Nod y canlyniad yw adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau bod atal digartrefedd yn gyfrifoldeb a rennir gan bartneriaid ehangach ym maes gwasanaethau cyhoeddus

**Tabl 30:** Canlyniad Strategol 5: Crynodeb o'r Canlyniadau Manwl

| Canlyniad Manwl | Dangosyddion a mesurau | Sut beth yw 'da' |
|---|---|---|
| **1:** Gall pobl sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt a chânt eu trin ag urddas a pharch gan wasanaethau cyhoeddus eraill | — Nid oes modd asesu'r maes hwn ar hyn o bryd.<br>+ Caiff dangosyddion eu harchwilio fel rhan o Raglen Ymchwil Tai ac Adfywio Llywodraeth Cymru. | **Tymor byr:** Nodi dangosyddion a mesurau data ar gyfer y canlyniad manwl hwn.<br>**Tymor hir:** Cynnydd cadarnhaol yn erbyn y canlyniad manwl hwn. |
| **2:** Nid yw pobl yn cael eu rhyddhau o wasanaethau cyhoeddus eraill i fod yn ddigartref | + Mae'r dangosydd ar gael er mwyn mesur.<br>— Mesur procsi gan nad yw'r ffynhonnell ddata'n gallu mesur y dangosydd yn llawn. | **Tymor byr**: Symud i ffwrdd oddi wrth y mesur procsi drwy allu mesur y dangosydd yn llawn.<br>**Tymor hir:** Cynnydd cadarnhaol yn erbyn y dangosydd. |
| **3:** Mae gwasanaethau cyhoeddus eraill yn cydnabod eu rôl o ran nodi'r rhai sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, rhoi mesurau ataliol ar waith a llwybrau atgyfeirio priodol | — Nid oes modd asesu'r maes hwn ar hyn o bryd.<br>+ Caiff dangosyddion eu harchwilio fel rhan o Raglen Ymchwil Tai ac Adfywio Llywodraeth Cymru. | **Tymor byr:** Nodi dangosyddion a mesurau data ar gyfer y canlyniad manwl hwn.<br>**Tymor hir:** Cynnydd cadarnhaol yn erbyn y canlyniad manwl hwn. |


**Canlyniad Manwl 2: Nid yw pobl yn cael eu rhyddhau o wasanaethau cyhoeddus eraill i fod yn ddigartref**

**Tabl 31:** Canlyniad manwl 2, Gwasanaethau Cyhoeddus: Crynodeb o'r dangosydd

| **Canlyniad Manwl 2 – Dangosyddion** | **Y data diweddaraf sydd ar gael** | **Ffynhonnell/ argaeledd** | **Sut beth yw 'da'** |
|---|---|---|---|
| **2a:** Nid yw pobl yn cael eu rhyddhau o wasanaethau cyhoeddus eraill i fod yn ddigartref, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:<br>➢ pobl sy'n gadael carchar neu lety cadw ieuenctid,<br>➢ pobl ifanc sy'n gadael gofal,<br>➢ pobl sy'n gadael lluoedd arfog rheolaidd y Goron,<br>➢ pobl sy'n gadael yr ysbyty ar ôl triniaeth feddygol am anhwylder meddyliol fel claf mewnol,<br>➢ pobl sy'n cael gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned | 2023-24 | Ffurflenni data Digartrefedd Statudol – mesur procsi<br><br>*Noder: Ni chafodd data eu casglu ar gyfer y dangosydd data hwn yn ystod y pandemig ond ailddechreuwyd gwneud hynny yn 2023-24* | Lleihad yn nifer y bobl sy'n cael eu rhyddhau o wasanaethau cyhoeddus eraill i fod yn ddigartref. |

**Dangosydd 2a: Nid yw pobl yn cael eu rhyddhau o wasanaethau cyhoeddus i fod yn ddigartref**

**Siart 22:** Y prif reswm dros golli'r cartref sefydlog diwethaf yn ôl blwyddyn ariannol, Cymru[10]




**Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru, Casgliad Data Digartrefedd Statudol

[10]Cafodd y data hyn eu hadfer yng nghasgliad data Digartrefedd Statudol 2023-24, mae data o 2018-19 wedi cael eu cynnwys yma at ddibenion cymharu.

7.1. Mae Siart 22 yn dangos y bu cynnydd rhwng 2018-19 a 2023-24 yn nifer yr aelwydydd y nodwyd mai 'wedi gadael carchar' oedd y prif reswm pam y gwnaethant golli'r cartref sefydlog diwethaf (231 o aelwydydd), ond mae'r gyfran ganrannol gyfatebol ar gyfer y rheswm hwn wedi aros yn debyg rhwng 2018-19 a 2023-24 (tua 11%). Mae nifer yr aelwydydd y nodwyd mai 'mewn sefydliad neu ofal' oedd y prif reswm pam y gwnaethant golli'r cartref sefydlog diwethaf yn 2023-24 yn debyg i'r nifer a gofnodwyd yn 2018-19.

# Pennod 8: Canlyniad Strategol 6 – Canolbwyntio ar yr Unigolyn

## Mae gwasanaethau cyhoeddus yn sicrhau mynediad teg sy'n diwallu anghenion eu poblogaeth leol ac sydd wedi'i deilwra yn unol ag anghenion unigolion

### Trosolwg

8.1. Nod y canlyniad strategol hwn yw adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau mynediad teg at gymorth a gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwerthfawrogi profiadau bywyd pobl.

**Tabl 32:** Canlyniad Strategol 6: Crynodeb o'r canlyniadau manwl

| Canlyniad Manwl | Dangosyddion a mesurau | Sut beth yw 'da' |
|---|---|---|
| **1:** Mae pobl yn cael y cymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol ac yn cael eu trin ag urddas a pharch | — Nid oes modd asesu'r maes hwn ar hyn o bryd.<br>+ Caiff dangosyddion eu harchwilio fel rhan o Raglen Ymchwil Tai ac Adfywio Llywodraeth Cymru. | **Tymor byr:** Nodi dangosyddion a mesurau data ar gyfer y canlyniad manwl hwn.<br>**Tymor hir:** Cynnydd cadarnhaol yn erbyn y canlyniad manwl hwn. |
| **2:** Nid yw pobl sy'n wynebu rhwystrau penodol (o ganlyniad i nodweddion gwarchodedig, profiad blaenorol ac ati) yn profi digartrefedd yn anghymesur | + Mae dau allan o'r pedwar dangosydd ar gael er mwyn mesur<br>— Mesurau procsi yw'r ddwy ffynhonnell | **Tymor byr**: Symud i ffwrdd oddi wrth y mesurau procsi, a data ar gael i fesur yr holl ddangosyddion.<br>**Hirdymor**: Cynnydd cadarnhaol yn erbyn yr holl ddangosyddion. |
| **3:** Mae pobl â phrofiad bywyd yn dylanwadu ar bolisi ac ymarfer Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a darparwyr gwasanaethau | — Nid oes modd asesu'r maes hwn ar hyn o bryd.<br>+ Caiff dangosyddion eu harchwilio fel rhan o Raglen Ymchwil Tai ac Adfywio Llywodraeth Cymru. | **Tymor byr:** Nodi dangosyddion a mesurau data ar gyfer y canlyniad manwl hwn.<br>**Tymor hir:** Cynnydd cadarnhaol yn erbyn y canlyniad manwl hwn. |

**Canlyniad Manwl 2:** Nid yw pobl sy'n wynebu rhwystrau penodol (o ganlyniad i nodweddion gwarchodedig, profiad blaenorol ac ati) yn profi digartrefedd yn anghymesur


**Tabl 33:** Canlyniad Manwl 2, Canolbwyntio ar yr Unigolyn: Crynodeb o'r dangosydd

| Canlyniad Manwl 2 – Dangosyddion | Y data diweddaraf sydd ar gael | Ffynhonnell/ argaeledd | Sut beth yw 'da' |
|---|---|---|---|
| **2a:** Nifer y bobl ag un neu fwy o nodweddion risg y mae cymorth wedi cael ei roi ar eu cyfer (yn ôl mesurau atal a rhyddhad llwyddiannus ac aflwyddiannus) | 2023-24 | Ffurflenni data Digartrefedd Statudol – mesur procsi | Ar gyfer pob grŵp sy'n wynebu risg:<br>• Cynnydd yn nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref a'u rhyddhau o ddigartrefedd.<br>• Lleihad yn nifer yr aelwydydd na lwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref a'u rhyddhau o ddigartrefedd. |
| **2b:** Hyd yr amser mewn llety dros dro yn ôl grŵp amrywiol | 2023-24 | Ffurflenni data Digartrefedd Statudol – mesur procsi | Lleihad yn hyd yr amser a dreuliwyd mewn llety dros dro ar gyfer pob grŵp amrywiol. |
| **2c:** Hyd yr amser rhwng asesu bod pobl yn ddigartref a'u symud i lety sefydlog yn ôl grŵp amrywiol | Dd/G | Dim ffynonellau data ar gael | Lleihad yn hyd yr amser rhwng asesu bod pobl yn ddigartref a'u symud i lety sefydlog ar gyfer pob grŵp amrywiol. |
| **2d:** Nifer y bobl o bob grŵp amrywiol sy'n ddigartref am gyfnod hir | Dd/G | Dim ffynonellau data ar gael | Lleihad yn nifer y bobl o bob grŵp amrywiol sy'n ddigartref am gyfnod hir. |

**Dangosydd 2a: Nifer y bobl ag un neu fwy o nodweddion risg y mae cymorth wedi cael ei roi ar eu cyfer (yn ôl mesurau atal a rhyddhad llwyddiannus ac aflwyddiannus)**


**Rhywedd y prif ymgeisydd**

**Siart 23i:** Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd ac na lwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref (Adran 66) yn ôl rhywedd y prif ymgeisydd fesul blwyddyn ariannol, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data [Digartrefedd Statudol]

**Siart 23ii:** Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd ac na lwyddwyd i'w rhyddhau o ddigartrefedd (Adran 73) yn ôl rhywedd y prif ymgeisydd fesul blwyddyn ariannol, Cymru





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data [Digartrefedd Statudol]

8.2. Mae Siart 23i yn amlinellu bod nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref, ar gyfer prif ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd, wedi lleihau rhwng 2022-23 a 2023-24. Hefyd, mae Siart 23ii yn dangos bod nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w rhyddhau o ddigartrefedd wedi lleihau ar gyfer aelwydydd â phrif ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd fel ei gilydd.


### Grŵp oedran y prif ymgeisydd

**Siart 23iii:** Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd ac na lwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref, yn ôl grŵp oedran y prif ymgeisydd fesul blwyddyn ariannol, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data [Digartrefedd Statudol]

**Siart 23iv:** Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd ac na lwyddwyd i'w rhyddhau o ddigartrefedd (Adran 73) yn ôl grŵp oedran y prif ymgeisydd fesul blwyddyn ariannol, Cymru





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data [Digartrefedd Statudol]

8.3. O siartiau 23iii a 23iv, y grŵp oedran sy'n cynrychioli'r mwyafrif o'r prif ymgeiswyr fesul blwyddyn yw ‘25 oed a throsodd’. Rhwng 2022-23 a 2023-24, mae nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref wedi lleihau neu wedi aros yn debyg ar gyfer pob grŵp oedran. Yn yr un modd, mae nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w rhyddhau o ddigartrefedd naill ai wedi lleihau neu wedi aros yn debyg ar gyfer pob grŵp oedran.


**Grŵp Ethnig y prif ymgeisydd**

**Siart 23v:** Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd ac na lwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref (Adran 66) yn ôl grŵp ethnig y prif ymgeisydd fesul blwyddyn ariannol, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data [Digartrefedd Statudol]

**Siart 23vi:** Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd ac na lwyddwyd i'w rhyddhau o ddigartrefedd (Adran 73) yn ôl grŵp ethnig y prif ymgeisydd fesul blwyddyn ariannol, Cymru





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data [Digartrefedd Statudol]

8.4. Mae Siart 23v a Siart 23vi yn dangos mai 'gwyn' yw'r grŵp ethnig a nodwyd gan y mwyafrif o'r prif ymgeiswyr, ac mai 'tarddiad ethnig anhysbys' sydd yn yr ail safle. Ym mhob grŵp, mae nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref wedi lleihau neu wedi aros yn debyg rhwng 2022-23 a 2023-24. Mae Siart 23vi yn dangos bod y niferoedd y llwyddwyd i'w rhyddhau o ddigartrefedd wedi lleihau yn y rhan fwyaf o grwpiau.


**Dangosydd 2b: Hyd yr amser mewn llety dros dro yn ôl grŵp amrywiol**

**Siart 24i:** Hyd yr amser a dreuliwyd mewn llety dros dro yn ôl math[10] o lety a rhywedd[12] y prif ymgeisydd, 2022-23, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data [Digartrefedd Statudol]

**Siart 24ii:** Hyd yr amser a dreuliwyd mewn llety dros dro yn ôl math[10] o lety a rhywedd[12] y prif ymgeisydd, 2023-24, Cymru




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Casgliad data [Digartrefedd Statudol]

[11]Nid yw'r mathau o lety 'arall' na 'digartref gartref' wedi'u cynnwys yn y siartiau oherwydd mesurau rheoli datgeliadau sy'n arwain at eitemau data cudd.

[12]Rhywedd y prif ymgeisydd ar gyfer aelwydydd un person

8.5. O Siart 24i a Siart 24ii, mae mwy o brif ymgeiswyr gwrywaidd mewn llety dros dro na phrif ymgeiswyr benywaidd. Mae gwrywod hefyd yn aros mewn llety dros dro am gyfnodau hwy na benywod. O edrych ar lety gwely a brecwast, rhwng 2022-23 a 2023-24, bu cynnydd ar gyfer pob un o'r tri chategori hyd ar gyfer y ddau rywedd, sef 333, 90 a 177 yn y drefn honno ar gyfer gwrywod, a 12, 21 a 9 yn y drefn honno ar gyfer benywod.

# Atodiad 1: Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai

A1.1 Cyflwynwyd Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2019. Diben cyffredinol y grant yw atal digartrefedd a chynorthwyo pobl i feithrin y gallu, yr annibyniaeth, y sgiliau a'r hyder i ddod o hyd i gartref sefydlog ac addas a/neu aros ynddo.

A1.2 Ym mis Ebrill 2023, rhoddwyd Fframwaith Canlyniadau newydd y Grant Cymorth Tai ar waith. Cafodd ei gydgynhyrchu â rhanddeiliaid yn ystod 2022 er mwyn cynrychioli diben craidd y grant a'r holl wasanaethau cymorth a ddarperir gan y grant yn fwy cywir.

A1.3 Mae Fframwaith Canlyniadau newydd y Grant Cymorth Tai yn cynnwys **prif ganlyniadau** a **chanlyniadau eilaidd** i ddangos tystiolaeth o'r gwasanaethau cymorth a ariennir drwy'r grant.

A1.4 Mae'r **prif ganlyniadau'n** ymwneud â dangos tystiolaeth o brif ddiben y Grant Cymorth Tai gan gynnwys yr holl fathau o wasanaethau cymorth a ddarperir drwy'r grant. Mae'r rhain yn amrywio o ymgysylltu'n anaml / am gyfnod byr drwy wasanaethau galw heibio neu wasanaethau allgymorth; cymorth i unigolion gael llety argyfwng/dros dro neu lety â chymorth byrdymor neu gartref sefydlog; neu wasanaethau lle bo angen i bobl yn eu cartrefi eu hunain.

A1.5 Dewislen o **ganlyniadau wedi'u teilwra** yn unig yw'r **canlyniadau eilaidd**, ac maent yn ddibynnol ar anghenion a chynlluniau cymorth unigolion (lle bo hynny'n berthnasol). Nid nodau y mae'n rhaid i bob unigolyn eu cyflawni yw'r rhain, felly ni fydd pob canlyniad yn berthnasol. Dim ond lle mae cymorth perthnasol wedi cael ei nodi y dylid adrodd ar y canlyniad eilaidd. Dylai'r canlyniad eilaidd a gyflawnwyd gyd-fynd yn glir â'r ymyriad cymorth a gafwyd.

A1.6 Mae data'r Grant Cymorth Tai yn mesur nifer y bobl sy'n ymwneud â gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai, gallu pobl i-gael llety argyfwng/dros dro neu lety â chymorth byrdymor a nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai ac nad ydynt yn ddigartref.

A1.7 Ceir sawl dangosydd yn y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd sy'n defnyddio'r data a gesglir yn Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai neu'n croesgyfeirio atynt, ac maent wedi cael eu cynnwys yn nhablau'r prif ddangosyddion yn yr adroddiad hwn. O dan ‘Byrhoedlog’, caiff dau ddangosydd eu mesur yn uniongyrchol gan ddefnyddio data o Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai. Hefyd, mae dangosyddion croesgyfeirio wedi'u gynnwys o dan ‘Prin’ a ‘Ddim yn digwydd eto’, sy'n tynnu sylw at y cysylltiad rhwng y ddau fframwaith.

A1.8 Nid yw data o Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai ar gael yn gyhoeddus eto ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ond ein bwriad yw y bydd

adroddiadau'r Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn y dyfodol yn cysylltu â data Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai.

# Atodiad 2: Dangosyddion Llesiant Cymru perthnasol

## Trosolwg


A2.1 Mae Canlyniadau Manwl 7, 8 a 9 yn ymwneud â ffactorau strwythurol ehangach, sef tlodi, amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau, ac maent yn croesgyfeirio at Ddangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cymru.

## Canlyniad Manwl 7: Mae gan bawb yng Nghymru yr adnoddau angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion

A2.2 Ceir tri dangosydd cenedlaethol y gellir eu croesgyfeirio at y canlyniad manwl hwn. Mae'r dangosyddion wedi'u cynnwys isod er mwyn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd ac adroddiad Llesiant Cymru.

### Dangosydd Cenedlaethol 10: Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen


**Siart A2.1:** Incwm gwario gros aelwydydd (£ y pen), yn ôl blwyddyn




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Incwm gwario gros aelwydydd a Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cymru

**Dangosydd Cenedlaethol 18: Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU: wedi'i fesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn**


**Siart A2.2:** Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU: wedi'i fesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Data tlodi a Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cymru

**Dangosydd Cenedlaethol 19: Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol**

**Siart A2.3:** Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol, 2022-23





Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru a Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cymru

## Canlyniad Manwl 8: Mae pawb yng Nghymru yn cael cyfle i gael swyddi teilwng

A2.3 Ceir dau ddangosydd cenedlaethol y gellir eu croesgyfeirio at y canlyniad manwl hwn. Mae'r dangosyddion wedi'u cynnwys isod at ddibenion tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd ac adroddiad Llesiant Cymru.

**Dangosydd Cenedlaethol 16: Canran y bobl sydd mewn gwaith, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill o leiaf y Cyflog Byw gwirioneddol**


**Siart A2.4:** Canran y bobl mewn gwaith yng Nghymru sy'n ennill o leiaf y Cyflog Byw gwirioneddol yn ôl blwyddyn




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, dadansoddiad o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cymru

**Dangosydd Cenedlaethol 21: Canran y bobl sydd mewn gwaith**

**Siart A2.5:** Cyfradd cyflogaeth yng Nghymru (16-64 oed) yn ôl blwyddyn





Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cymru

## Canlyniad Manwl 9: Mae pawb yng Nghymru yn gallu cael gafael ar y gofal iechyd sylfaenol a chymdeithasol sydd ei angen arnynt

A2.4 Ceir dau ddangosydd cenedlaethol y gellir eu croesgyfeirio at y canlyniad manwl hwn. Mae'r dangosyddion wedi'u cynnwys isod at ddibenion tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd ac adroddiad Llesiant Cymru.

**Dangosydd Cenedlaethol 2: Disgwyliad oes iach ar enedigaeth, gan gynnwys y bwlch rhwng y rhai mwyaf a lleiaf difreintiedig**

**Siart A2.6:** Y bwlch mewn disgwyliad oes iach mewn blynyddoedd rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig





Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cymru

**Nodyn:** Mae'r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig wedi aros yn sefydlog rhwng 2011 a 2013 a rhwng 2016 a 2018 ar gyfer gwrywod a benywod. Rhwng 2018 a 2020 roedd y bwlch ymhlith benywod fwy na thair blynedd a hanner yn fwy na'r bwlch ymhlith gwrywod.

**Dangosydd Cenedlaethol 24: Canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/defnyddio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt**

**Siart A2.7:** Canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gael gafael ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, fesul blwyddyn




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru a Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cymru